Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant o ymdrin ag addysg yng Nghymru

**Mae dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant** yn fframwaith egwyddorol ac ymarferol ar gyfer lleoliadau addysg, er mwyn galluogi addysg hawliau dynol o dan ddyletswyddau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.



# Dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant o ymdrin ag addysg yng Nghymru

## Ar gyfer pwy mae'r fframwaith hwn?

Bydd y fframwaith hwn yn cefnogi arweinwyr lleoliadau addysg i ddatblygu dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant yn eu lleoliad. Gall pob lleoliad addysg yng Nghymru fabwysiadu'r dull gweithredu hwn, gan gynnwys: ysgolion; lleoliadau blynyddoedd cynnar; Addysg Bellach; lleoliadau EOTAS; lleoliadau addysg a gwaith ieuenctid anffurfiol a lleoliadau addysgu gartref. Hefyd gall adrannau addysg awdurdodau lleol ddefnyddio'r fframwaith hwn i gefnogi dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar draws eu darpariaeth. Gall Sefydliadau Addysg Uwch ddefnyddio'r fframwaith hwn i gefnogi Addysg Gychwynnol Athrawon.

Bydd addysgwyr unigol hefyd yn cael hyd i adnoddau defnyddiol a syniadau ar gyfer arfer seiliedig ar hawliau ar draws y fframwaith hwn. Mae rhoi dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant ar waith yn galw am ddull gweithredu lleoliad cyfan, gydag arweiniad clir ac ymrwymiad gan holl staff y lleoliad.

## Rhestr o'r Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Diolchiadau | 4 |
| Sut mae'r fframwaith hwn yn cefnogi eich dyletswyddau statudol | 5 |
| Hawliau Dynol Plant | 7 |
| Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; | 7 |
| Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau | 8 |
| Dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant | 9 |
| Gwreiddio hawliau dynol plant | 10 |
| Cydraddoldeb a Dim Gwahaniaethu | 12 |
| Grymuso plant | 15 |
| Cyfranogiad | 18 |
| Atebolrwydd | 20 |
| Sut gall Comisiynydd Plant Cymru eich cefnogi chi? | 22 |

# CYFLWYNIAD

Dylai Cymru fod yn wlad lle mae pob plentyn yn profi eu hawliau dynol. Er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen i hawliau dynol plant fod yn rhan o'n cyfreithiau. Ond mae'r un mor bwysig bod hawliau dynol yn cael eu deall, ac yn rhan o'n diwylliant a'n hamgylchedd.

Mae addysg hawliau dynol yn thema sy'n croesdorri ein cwricwlwm newydd yng Nghymru. Mae addysg hawliau dynol yn golygu bod oedolion a phlant yn:

- Dysgu **am** hawliau dynol;
- Dysgu **trwy** hawliau dynol;
- Dysgu **ar gyfer** hawliau dynol.

Mae hyn yn golygu bod plant ac oedolion yn gwybod ac yn deall eu hawliau dynol, eu bod yn profi eu hawliau dynol yn eu haddysg, a'u bod yn cael eu grymuso â'r sgiliau i eiriol dros eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill.

Mae'r thema hon yn weladwy trwy ganllawiau cwricwlwm Llywodraeth Cymru. Mae datblygu dealltwriaeth o hawliau wedi'i integreiddio i'r disgrifiadau dysgu ar gyfer Meysydd Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a Iechyd a Llesiant, ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae gofynion ehangach y cwricwlwm yn nodi addysg hawliau dynol fel thema drawscwricwlaidd yn y cwricwlwm ac yn nodi sut mae angen i'r dysgwyr gael profiad ystyrlon o'u hawliau cyfranogol yn nyluniad y cwricwlwm.

Yn bwysig, mae hawliau dynol plant ar wyneb Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, sy'n nodi bod angen i'r holl staff sy'n ymwneud â chyflwyno'r cwricwlwm ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau dynol plant o dan ddau o Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA)

Mae CCUHP yn cyflwyno hawliau dynol plant. Mae CCUHPA yn nodi beth mae hawliau dynol yn ei olygu i bobl ag anabledd, gan gynnwys plant sydd ag anabledd. Ceir esboniadau ar y ddau Gonfensiwn yma yn y fframwaith hwn. Mae'r ddau Gonfensiwn hefyd yn rhan hanfodol o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant i addysg yng Nghymru, mae'n cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi sut gall gweithwyr addysg proffesiynol ddod â gwahanol elfennau o'u darpariaeth ynghyd i greu dull gweithredu ymarferol, cydlynus, ar sail egwyddorion y ddau Gonfensiwn yma. Ar hyd y fframwaith hwn, mae cysylltiadau sy'n dangos sut mae hyn yn cefnogi'r cwricwlwm a dyletswyddau ehangach yr ysgol.

Bydd y dull hwn o ymdrin ag addysg yn galluogi gweithwyr proffesiynol i roi eu dysgu am hawliau dynol plant ar waith. A'r arfer hwn fydd yn golygu bod hawliau'n cael eu gwireddu i bob plentyn yng Nghymru.



# DIOLCHIADAU

Mae'r fframwaith hwn yn addasiad o Ddull Gweithredu Seiledig ar Hawliau Plant ar gyfer Cyrff Cyhoeddus, a grewyd â chyngor arbenigol gan Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant (sy'n rhan o brifysgolion Abertawe a Bangor).

Ar ben hynny, diolch i aelodau o'n Paneli Ymgynghorol a'r sefydliadau a'r lleoliadau canlynol am eu cyngor wrth ddatblygu'r fframwaith hwn:

- Ysgol Gyfun Cefn Saeson, Castell-nedd Port Talbot;
- Consortiwm Canol y De;
- Cydraddoldeb a'r Comisiwn Hawliau Dynol;
- Estyn;
- Y Gwasanaeth Cyflawniad Addysg (De-ddwyrain Cymru);
- Ysgol Gynradd Gatholig y Forwyn Fair, Rhondda Cynon Taf;
- Lleisiau Rhieni yng Nghymru;
- Ysgol Gynradd Gymraeg Dewi Sant, Sir Gaerfyrddin;
- Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan, Castell-nedd Port Talbot;
- Ysgol Hafod Lon, Gwynedd;
- Ysgol y Wern, Caerdydd.

## Astudiaethau Achos

Diolch i'r holl sefydliadau am rannu enghreifftiau o ymarfer sy'n seiliedig ar hawliau. Mae'r rhain wedi cael eu cynnwys drwy'r fframwaith yma ac ar wefan y Comisiynydd Plant. Mi fydd yr ardal yma ar ein gwefan yn cael ei ddiweddaru'n aml.

Mae'r astudiaethau achos yma wedi cael eu cynnwys i alluogi bobl broffesiynol rannu ymarfer sydd wedi cael ei ddatblygu yn eu sefydliadau sy'n seiliedig ar hawliau. Gyda rhan fwyaf o'r enghreifftiau, mae'r disgrifiadau o ymarfer wedi cael eu hysgrifennu gan reiny o'r sefydliadau.

Nid oes gan swyddfa'r Comisiynydd Plant rôl yn ardystio'r dulliau seiliedig ar hawliau dynol yn y sefydliadau yma. Er hyn, rydyn ni'n awyddus i glywed am ac i rannu syniadau sy'n mynd i ysbrydoli dulliau'n seiliedig ar hawliau ar draws Cymru. Os oes gennych chi astudiaeth achos i'w rannu gyda ni, peidiwch oedi cysylltu ar post@complantcymru.org.uk

# SUT MAE'R FFRAMWAITH YN CEFNOGI EICH DYLETSWYDDAU STATUDOL

Mae hawliau dynol plant yn berthnasol i'r holl gyfreithiau a chanllawiau cysylltiedig â lleoliadau addysg, ac mae'r dull gweithredu hwn yn fframwaith effeithiol i'ch helpu i gyflawni eich holl ddyletswyddau statudol. Mae'r adran hon yn crynhoi sut mae'r fframwaith yn eich cefnogi i gyflawni rhai elfennau allweddol o'r cwricwlwm a'r canllawiau addysg ehangach.

## Cwricwlwm

- Mae'r fframwaith yn cefnogi'r pedwar diben a dysgu ym mhob un o'r meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae'r ddogfen fapio hon yn dangos sut mae deilliannau'r cwricwlwm yn cysylltu â hawliau dynol plant.
- Mae Adran 64 o Ddeddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn cyflwyno dyletswydd i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiynau'r CU ar Hawliau'r Plentyn a Phobl ag Anableddau.
- Mae Adran 63 o Ddeddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn cyflwyno dyletswydd i roi sylw i iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cyfateb i Erthygl 24 o'r CCUHP, a'r nodau addysg a gyflwynir yn Sylw Cyffredinol Rhif 1.
- Mae addysg hawliau dynol yn un o'r themâu sy'n croesdorri'r cwricwlwm yng Nghymru, ac egwyddorion addysg hawliau dynol, wedi'u llywio gan CCUHP a CCUHPA, yn rhan o'r gofynion ehangach y mae'n rhaid i leoliadau eu hystyried wrth lunio'u cwricwlwm.
- Mae cyfranogiad yn un o egwyddorion trawsgwricwlaidd allweddol CCUHP a CCUHPA. Mae canllawiau'r cwricwlwm yn nodi bod rhaid i ddysgwyr gyfranogi yn y gwaith o lunio'r cwricwlwm yn eu lleoliad.

## Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

- Mae'r Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru 2021 yn cyflwyno dull gweithredu seiliedig ar hawliau fel un o egwyddorion gwaelodol allweddol y system ADY. Mae'n nodi sut mae'r Côd yn cael ei lywio gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA), ac yn cyfeirio at egwyddorion dull gweithredu'r Comisiynydd Plant.
- Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau ynghylch yr ADY sydd ganddynt yn rhan hanfodol o'r dull gweithredu seiliedig ar hawliau.

## Canllawiau gwrthfwlio statudol: Hawliau, Parch a Chydraddoldeb

- Mae'r canllawiau statudol hyn yn cyflwyno dull gweithredu seiliedig ar hawliau ar gyfer atal ac ymateb i fwlio, sy'n cael ei lywio gan blant yn y lleoliad;
- Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys dyletswyddau ar gyrff llywodraethu i gofnodi a monitro bwlio, ac i ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio dulliau gweithredu ataliol.

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

- Mae cydraddoldeb a dim gwahaniaethu yn egwyddorion hawliau dynol canolog, ac yn rhan o egwyddorion ein fframwaith hawliau plant. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen am wneud y canlynol:

  (a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd o dan y Ddeddf honno;


  (b) hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu;

  (c) meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

## Cynghorau Ysgol

- Mae cyfranogiad yn egwyddor trawsgwricwlaidd allweddol yn CCUHP a CCUHPA. Mae Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 yn nodi bod rhaid cael cyngor ysgol ym mhob ysgol i drafod materion yn ymwneud â'u hysgol, addysg ac unrhyw faterion eraill sy'n destun pryder neu ddiddordeb, ac i gyflwyno sylwadau ar y rhain i'r corff llywodraethu a'r pennaeth.

## Cadw Dysgwyr yn Ddiogel




- Mae diogelu rhag niwed yn rhan annatod o CCUHP (erthyglau 19, 33, 34, 35, 36, 37). Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, yn nodi bod datblygu dealltwriaeth plant o'u hawliau yn fesur ataliol pwysig ar gyfer diogelu lles plant a phobl ifanc. Mae galluogi plant i brofi eu hawl i sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw (erthygl 12 o CCUHP) yn offeryn diogelu allweddol.
- Mae'r canllawiau hyn yn argymell ac yn amlinellu egwyddorion dull gweithredu'r Comisiynydd Plant.

# HAWLIAU DYNOL PLANT

## Beth yw hawliau dynol?

Mae hawliau dynol gan bob person. Cyflwynwyd y rhain yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yn 1948. Cyflwynwyd y datganiad hwn fel ymateb uniongyrchol i erchyllterau'r Ail Ryfel Byd, ond fe'l seiliwyd ar syniadau ynghylch cyfiawnder a thegwch a oedd yn bodoli mewn llawer o wahanol gymdeithasau a diwylliannau. Nid oedd y Datganiad Cyffredinol yn gyfreithiol rwymol, ond daeth yn fuan yn un o gonglfeini cyfraith hawliau dynol ryngwladol. Mae'r corff hwn o gyfraith hawliau dynol rhyngwladol yn esblygu'n barhaus, gydag ymdrechion i gymhwyso a datblygu hawliau a rhyddid y Datganiad Cyffredinol i faterion penodol a grwpiau cymdeithasol. Bellach mae mwy nag 80 o gytuniadau hawliau dynol rhyngwladol sy'n diogelu hawliau dynol, ar sail egwyddorion craidd y Datganiad gwreiddiol.

Mae hawliau dynol yn gwarantu rhyddid sylfaenol ac yn diwallu anghenion sylfaenol y ddynoliaeth gyfan, wedi'i seilio ar barch at urddas dynol. Mae cytuniadau a Chonfensiynau hawliau dynol yn rhwymo'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus ar bob lefel yn y Deyrnas Unedig, ac yn darparu fframwaith moesegol cryf ar gyfer cynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)


Rhoddir amddiffyniad hawliau dynol arbennig i blant 0-17 oed o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Yn 1991 cytunodd y Deyrnas Unedig yn ffurfiol i sicrhau bod pob plentyn yn y Deyrnas Unedig yn derbyn yr holl hawliau a restrir yn y confensiwn trwy gadarnhau CCUHP. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y Confensiwn yn sail ar gyfer llunio polisi i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn 2004. Aeth Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ati i gryfhau ac adeiladu ar ddull gweithredu seiliedig ar hawliau Llywodraeth Cymru wrth lunio polisi i blant a phobl ifanc yng Nghymru, a gosod dyletswydd ar holl Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ymarfer unrhyw swyddogaethau Gweinidogol sydd ganddynt.

Mae CCUHP yn cydnabod bod plant mewn sefyllfa wahanol i oedolion, y bydd ganddynt yn aml anghenion gwahanol, a bod plant yn wynebu heriau arbennig oherwydd bod plentyndod yn cynnwys cyfnodau o ddatblygiad corfforol neu emosiynol. Mae'r hawliau a gyflwynir yn CCUHP yn fodd ychwanegol i sicrhau eu diogelwch a'u datblygiad, a chefnogi capasiti plant i wneud penderfyniadau a gweithredu'n annibynnol. Mae holl erthyglau'r Confensiwn yn cwmpasu tair prif thema: **Cyfranogiad**, **Darpariaeth** ac **Amddiffyniad**.

Mae'r erthyglau ar **Gyfranogiad** wedi'u seilio ar y syniad o'r plentyn neu'r person ifanc fel rhywun sy'n gwneud cyfraniad gweithredol i gymdeithas fel dinesydd, ac i'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd eu hunain.

Mae'r erthyglau **Darpariaeth** yn cwmpasu hawliau sylfaenol plant a phobl ifanc i oroesi a datblygu. Mae'r rhain yn amrywio o ofal iechyd, bwyd a dŵr glân i ofynion addysg a'r amgylchedd.

Mae'r erthyglau **Amddiffyniad** yn delio ag ecsbloetio plant a phobl ifanc ym myd gwaith; cam-drin corfforol, rhywiol a seicolegol; gwahaniaethu a mathau eraill o gamdriniaeth mae llawer yn dal i'w dioddef, gan gynnwys yn y Deyrnas Unedig.



## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA)

Mabwysiadodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig y Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'i Brotocol Dewisol ar 13 Rhagfyr 2006. Cyn i'r Confensiwn hwn gael ei fabwysiadu, roedd offerynnau hawliau dynol eraill eisoes yn ymdrin ag anabledd, naill ai fel rhan o ffocws cyffredinol neu'n fwy penodol. Ond roedd y Confensiwn yn angenrheidiol i gadarnhau hawliau dynol pobl ag anableddau ac i sicrhau eu cyfranogiad mewn cymdeithas fel aelodau cyfartal. Roedd modd hefyd i'r Confensiwn roi sylw llawnach i'r heriau roedd pobl ag anableddau yn eu hwynebu, ac amddiffyn a hybu eu hawliau'n well trwy offeryn cyfreithiol rwymol.

Nodir diben y Confensiwn yn erthygl 1 ohono: hybu, diogelu a sicrhau **mwynhad llawn a chyfartal o bob hawl ddynol** a rhyddid sylfaenol gan bob person ag anableddau, a hyrwyddo parch at eu hurddas cynhenid. Mae Erthygl 1 hefyd yn egluro beth mae "pobl ag anableddau" yn ei olygu. Nid yw'r Confensiwn yn darparu diffiniad caeedig o anabledd. Mae'n datgan bod anabledd yn gysyniad sy'n esblygu, ac yn cynnwys pob anabledd. Mae'r Confensiwn hefyd yn adlewyrchu **model anabledd sy'n seiliedig ar elfennau cymdeithasol a hawliau**.

Mae [Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021] hefyd yn cyfeirio at fodel cymdeithasol. Mae'r model hwn yn dadlau mai cymdeithas sy'n creu'r rhwystrau (ar ffurf agweddau neu amgylchedd) sy'n gwneud pobl yn anabl, yn hytrach na bod pobl yn anabl oherwydd namau corfforol neu feddyliol. Mae'r model cymdeithasol yn ymdrin ag anabledd mewn modd positif, gan ganolbwyntio ar ddileu rhwystrau i gydraddoldeb.

Cyflwynir **egwyddorion** CCUHPA yn Erthygl 3, sef:

- Parch at urddas cynhenid ac ymreolaeth yr unigolyn, gan gynnwys rhyddid i wneud eich dewisiadau eich hun, ac annibyniaeth personau;
- Peidio â chamwahaniaethu;
- Cyfranogiad a chynhwysiad llawn yn y gymdeithas;
- Parch at wahaniaeth a derbyn pobl ag anableddau fel rhan o amrywiaeth a dynoliaeth pobl;
- Cyfle cyfartal;
- Hygyrchedd;
- Cydraddoldeb rhwng dynion a benywod;
- Parch at gapasiti plant ag anableddau wrth iddo esblygu a pharch at hawl plant ag anableddau i gadw eu hunaniaeth.

Mae CCUHPA hefyd yn cynnwys ystyriaethau penodol sy'n ymwneud â **phlant**. Mae Erthygl 7 yn nodi bod gan blant anabl yr un hawliau â phob plentyn arall. Mae Erthygl 23 yn rhoi hawl i blant anabl a'u teuluoedd dderbyn gwybodaeth a chymorth ac mae Erthygl 24 yn nodi bod gan blant anabl hawl i addysg gynhwysol â chymorth er mwyn datblygu eu sgiliau a'u doniau yn llawn.




# DULL GWEITHREDU SEILIEDIG AR HAWLIAU DYNOL PLANT

Mae'r adran hon yn nodi sut gall lleoliadau ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant i ddatblygu ymarfer seiliedig ar hawliau yn eu lleoliad. Mae'r dull gweithredu yn cefnogi lleoliadau sy'n dechrau datblygu'r arfer hwn, a hefyd yn cefnogi'r lleoliadau hynny sydd eisoes yn gyfarwydd â dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau i ddatblygu eu hymarfer a gwreiddio egwyddorion hawliau dynol ymhellach. Datblygwyd y dull gweithredu hwn ar sail y dull gweithredu seiliedig ar hawliau a gyflwynwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru ar gyfer cyrff cyhoeddus. Mae'r dull gweithredu unigryw hwn ar gyfer addysg wedi'i gysylltu'n benodol â gofynion cyfreithiol addysg yng Nghymru, ac mae'n defnyddio astudiaethau achos o bob rhan o Gymru i ddarlunio ymarfer addysg seiliedig ar hawliau o dan bob un o'r egwyddorion. Mae gan lawer o leoliadau addysg yng Nghymru arferion datblygedig eisoes ar gyfer datblygu dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol i blant: yn aml bydd mabwysiadu'r egwyddorion a'r awgrymiadau a ddisgrifir isod yn cydweddu â'r hyn sydd eisoes yn gweithio neu'n ei wella.

Egwyddorion dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol i blant yw:

- Gwreiddio hawliau dynol plant
- Cydraddoldeb a dim gwahaniaethu
- Grymuso plant
- Cyfranogiad
- Atebolrwydd




Gall lleoliadau addysg ddefnyddio ein matrics i hunanwerthuso i ba raddau mae'r egwyddorion hyn eisoes wedi'u hintegreiddio i'w hymarfer, ac i osod targedau ar gyfer gwella.

**Cyngor Pobl Ifanc**

Rhoddodd Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc y Comisiynydd Plant yr enghreifftiau isod yn ddangosyddion o ddull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant mewn lleoliad addysg.

Rydyn ni'n gwybod bod hawliau wedi'u **gwreiddio** pan fydd:

- Cyngor yr ysgol yn rhan annatod o wneud penderfyniadau
- Parch o'r ddeutu rhwng y staff a'r disgyblion
- Ein dysgu yn gysylltiedig â'n hawliau

Rydyn ni'n gwybod bod **cydraddoldeb ar waith ac nad oes gwahaniaethu** pan fydd:

- Gennym ni rywle diogel i fynd os byddwn ni'n teimlo bod rhywun yn gwahaniaethu yn ein herbyn
- Gennym ni le i ymarfer ein ffydd ac mae bwyd halal ar gael yn y ffreutur
- Ein hysgol yn onest am fwlio

Rydyn ni'n gwybod ein bod ni wedi'n **grymuso** pan fydd:

- Cyfle i ni archwilio a thrafod ein hawliau yn yr ysgol

Rydyn ni'n gwybod ein bod ni'n gallu **cyfranogi** pan fydd:

- Pawb ohonon ni'n profi ein hawl i leisio barn
- Ein hysgol yn gadael i bawb ohonon ni wybod am gyfleoedd i leisio barn

Rydyn ni'n gwybod bod ein lleoliad yn **atebol** i ni pan fyddwn:

- Yn clywed gan Athrawon sut mae ein barn wedi cael ei chymryd i ystyriaeth
- Yn derbyn E-bost misol yn dweud sut mae ein hysgol yn defnyddio ein hadborth
- Yn gwybod beth sy'n cael ei wneud pan fyddwn ni'n codi materion fel bwlio neu gamwahaniaethu

## Gwreiddio hawliau dynol plant


**Dylai hawliau dynol plant fod yn greiddiol i gynllunio a chyflwyno yn y lleoliad cyfan.**

Mae arweinyddiaeth yn hanfodol bwysig i sicrhau bod hawliau wedi'u gwreiddio yn y lleoliad. Ar lefel uwch, mae angen i arweinwyr ddeall hawliau dynol plant a phennu cyfeiriad clir ar gyfer gwreiddio hawliau yn eu sefydliad. Dylid cefnogi hyn â chynllun gweithredu sy'n cael ei fonitro a'I adolygu'n rheolaidd.

Mae dysgu proffesiynol hefyd yn ofyniad canolog: dylai pob aelod o staff yn y lleoliad, gan gynnwys arweinwyr, staff cyswllt a chymorth, ddatblygu gwybodaeth am CCUHP a CCUHPA a dealltwriaeth ohonynt, yn unol â gofynion y cwricwlwm newydd. Dylai arweinyddiaeth glir sicrhau bod y dealltwriaeth hon yn galluogi'r staff i greu cysylltiadau â'u hymarfer, a hybu hawliau yn eu gwaith beunyddiol.

Yn yr un modd, mae angen bod gan bob llywodraethwr ymwybyddiaeth o egwyddorion a chynnwys hawliau dynol plant, a dylen nhw fedru ystyried y rhain wrth wneud penderfyniadau. Wrth i bolisïau ysgol gael eu hadolygu, dylai staff a llywodraethwyr sicrhau eu bod yn gyson ag egwyddorion y Confensiynau hyn.

Dylai hyn gael ei gydlynu ar draws gwahanol feysydd yn yr ysgol, a hefyd gyda gwasanaethau allanol er mwyn sicrhau bod egwyddorion hawliau dynol plant bob amser yn cael eu cymhwyso. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod lles pennaf y plentyn (erthygl 3) yn brif ystyriaeth yn yr holl benderfyniadau sy'n ymwneud â phlant unigol a grwpiau o blant. Dylai fod yn eglur sut mae hawliau dynol plant wedi cael eu cymryd i ystyriaeth.




Er mwyn rhoi'r egwyddor ar waith:

- Datblygu gweledigaeth strategol glir er mwyn gwreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant. Mae gwerthuso yn dangos bod arweinyddiaeth yn allweddol i sicrhau hyn. **Mae angen i arweinwyr lleoliad hyrwyddo'r weledigaeth hon** a'i symud ymlaen â chynllun gweithredu clir.
- Dylai arweinwyr roi'r weledigaeth hon ar waith â **chynllun gweithredu** o dargedau penodol, mesuradwy, amser-benodol, sydd wedi'u seilio ar y fframwaith hwn.
- Nodi **unigolion allweddol neu dîm** sy'n gyfrifol am symud eich cynllun gweithredu ymlaen, a chefnogi eraill i ddatblygu eu hymarfer. Dylai rhoi eich cynllun gweithredu ar waith gael ei adlewyrchu wrth reoli perfformiad ac arfarnu unigolion.
- **Mae plant yn unigolion allweddol** i'w cynnwys yn y grŵp hwn ac fe allech gynnwys cynrychiolwyr o blith y llywodraethwyr yn ogystal. Gallai'r grŵp yma hefyd fod yn gyfrifol am gynllun dwyieithog di-dâl Llysgenhadon y Comisiynydd Plant yn eich lleoliad.
- Sicrhau bod **y corff cyfan o staff yn dysgu'n broffesiynol** er mwyn datblygu gwybodaeth am CCUHP a CCUHPA a dealltwriaeth ohonynt, yn unol â gofynion cyfreithiol y cwricwlwm. Cefnogwch hyn ag adnoddau dysgu proffesiynol Llywodraeth Cymru, sydd fod yn barod mis Medi 2022 ar Hwb.
- Cyfeirio at CCUHP a CCUHPA ym mhob polisi a dogfen arall sy'n cyflwyno'r weledigaeth a'r gwerthoedd.
- Sicrhau bod eich **llywodraethwyr** (neu strwythur llywodraethu cyfatebol) yn derbyn hyfforddiant ym maes hawliau dynol plant. Cefnogwch hyn gyda adnoddau dysgu proffesiynol Llywodraeth Cymru, sydd fod yn barod mis Medi 2022 ar Hwb.
- Sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gwybod bod hawliau dynol plant yn bwysig i'ch lleoliad a chynnwys CCUHP a CCUHPA yn eich **gohebiaeth a'ch digwyddiadau:** y wefan; llythyrau; diwrnodau agored; adroddiadau i rieni; gwasanaethau agored; perfformiadau ysgol; adroddiad blynyddol y llywodraethwyr; prosbectws yr ysgol. Gallwch chi ddefnyddio ein canllaw syml i rieni ar hawliau plant i wneud hyn.
- Sicrhau eich bod yn cysylltu hawliau dynol plant â'r **pedwar diben** a'r chwe **Maes Dysgu a Phrofiad**. Gallwch chi ddefnyddio ein map hawliau o'r cwricwlwm i gefnogi hyn.
- Cynnal **gwerthusiad cychwynnol a pharhaus** o lefelau o wybodaeth am hawliau plant a dealltwriaeth ohonynt ymhlith staff, llywodraethwyr, disgyblion a'r gymuned ysgol ehangach.

### Astudiaethau Achos: **Mudiad Meithrin – galluogi plant ifanc ledled Cymru i ddysgu trwy hawliau**

Mae modd addasu'r fframwaith hawliau plant hwn ar gyfer lleoliadau a gynhelir a rhai nas cynhelir. Rydyn ni hefyd yn credu bod modd i'r egwyddorion ychwanegu'n fawr at yr hyn mae'r cwricwlwm newydd yng Nghymru yn ei gynnig i leoliadau blynyddoedd cynnar. Rydyn ni wedi ymuno â Mudiad Meithrin – prif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg – i ddatblygu adnoddau fydd yn cefnogi lleoliadau blynyddoedd cynnar ac eraill sy'n gweithio gyda phlant iau, gan gynnwys rhaglen Dechrau'n Deg Cymru, i roi arfer seiliedig ar hawliau ar waith. Mae'r holl adnoddau hyn wedi'u halinio â'r Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant, ac yma mae Dr Gwenllian Lansdown Davies, prif weithredwr Mudiad Meithrin, yn esbonio'r rhesymau dros gefnogi arfer seiliedig ar hawliau yn y blynyddoedd cynnar:

**"Yn Mudiad Meithrin, ry'n ni'n angerddol am roi'r hawl a'r cyfle i bob plentyn chwarae, dysgu a thyfu yn Gymraeg. Roedden ni'n awyddus i gefnogi fframwaith sy'n ein galluogi ni fel mudiad a'n lleoliadau i wireddu'r uchelgais honno. Ry'n ni'n gobeithio, trwy gynhyrchu deunyddiau o'r fath, bod modd i ni ddangos yn glir i bawb sy'n gweithio gyda phlant, ym mha gyfnod bynnag o'u bywydau, fod dull seiliedig ar hawliau plant yn rhywbeth ymarferol, grymus, y mae modd ei gyflawni."**

Bydd y deunyddiau sy'n cael eu datblygu gyda Mudiad Meithrin ar gael ar ein gwefan: www.comisiynyddplant.cymru



### Astudiaethau Achos: **Ysgol Gynradd Ringland: hawliau plant fel Sylfaen ar gyfer yr ysgol gyfan**

**"Mae gwybod gwerth hawliau plant a'u heffaith ar ein haddysgeg a'n hymarfer bob dydd yn rhan o fod yn athro/athrawes yn Ysgol Ringland."**

Yn Ysgol Gynradd Ringland yng Nghasnewydd, hawliau plant yw sylfaen gwerthoedd ac ethos yr ysgol. Lluniwyd y cwricwlwm i fodloni Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'r pedwar diben gyda'i gilydd. Bydd pob wythnos ysgol yn dechrau gydag un o erthyglau CCUHP, a gysylltir â'r cwricwlwm, a'i harchwilio trwy 'Ddydd Llun Ymwybyddiaeth Ofalgar' ar draws yr ysgol gyfan. Bydd gwasanaethau wythnosol yn canolbwyntio ar un o'r gwerthoedd bob wythnos a bydd y cysylltiad rhwng y gwerth sydd dan sylw a hawliau plant yn cael ei esbonio. Caiff dyluniad y cwricwlwm ei adolygu a'i werthuso gan ddefnyddio grwpiau llais y disgybl, sydd wedyn yn cyfrannu at gynllunio datblygiad. Mae'r llysgenhadon hawliau yn arwain troeon dysgu ynghylch llesiant ac yn rhoi adborth i'r athrawon gan ddefnyddio system Coch, Oren, Gwyrdd.

Yn ogystal ag amlygu'r cysylltiad uniongyrchol rhwng egwyddorion y Confensiwn a'r dysgu, mae strategaeth hawliau plant gan yr ysgol ac mae hawliau plant ynghlwm wrth bolisïau, gyda dulliau gweithredu ar gyfer llesiant ac ymgysylltiad sy'n seiliedig ar erthyglau CCUHP. Mae pob llywodraethwr ac aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant hawliau plant ac mae'r staff wedi ffurfio grŵp llywio hawliau plant ar gyfer y Llysgenhadon Gwych sy'n rhoi adroddiadau rheolaidd i gorff llywodraethu'r ysgol ac i'r Llywodraethwr Llesiant.

Yn ogystal, mae Ysgol Gynradd Ringland yn cymryd rhan yng Nghynllun Llysgenhadon y Comisiynydd Plant ers pum mlynedd: mae'r grŵp llysgenhadon hawliau a'r Llysgenhadon Gwych yn rhan allweddol o'r dull gweithredu ynghylch hawliau, ac yn sicrhau bod gwaith cynllunio ac arferion yr ysgol yn adlewyrchu lleisiau plant.

Mae Dawn Robertson-Stannett, Dirprwy Bennaeth, yn esbonio'r effeithiau ar blant,

**"Mae ein Llysgenhadon Gwych yn cael gwybod am eu hawliau ac yn cael cyfleoedd i gyflawni eu gwaith mewn modd creadigol. Maen nhw wedi bod yn allweddol o ran cyflwyno gwybodaeth am ddiogelwch a llesiant yn yr ysgol. Cawson nhw eu grymuso i wneud penderfyniadau, arwain gwasanaethau a rhoi cyflwyniadau i'n Llywodraethwyr."**

**"Mae'r holl blant yn gallu trafod eu hawliau'n hyderus ac yn gwybod pam maen nhw mor bwysig. Mae hyn yn rhan annatod o ddatblygu eu hyder, eu hunan-gred a'u hymwybyddiaeth o hawliau pobl eraill."**

# Cydraddoldeb a dim gwahaniaethu

Ystyr cydraddoldeb yw sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i wneud yn fawr o'u doniau a datblygu hyd eithaf eu potensial, ac nad oes rhaid i unrhyw blentyn oddef cyfleoedd gwael mewn bywyd oherwydd gwahaniaethu yn eu herbyn.

Mae hybu cydraddoldeb yn golygu cymryd camau i daclo gwahaniaethu, sy'n hawl o dan CCUHP (Erthygl 2). Mae peidio â chamwahaniaethu hefyd yn un o egwyddorion CCUHPA (Erthygl 3). Mae CCUHPA hefyd yn cyflwyno egwyddor cynhwysiad (Erthygl 3) a'r ddyletswydd i barchu'r egwyddor hon (Erthygl 4). Mae cynhwysiad yn galw am amgylchedd corfforol a chymdeithasol hygyrch, dirwystr. Gall hynny olygu newid agweddau yn ogystal â lleoedd.

Mae angen i leoliadau addysg hybu newidiadau fel bod modd bob amser i blant gyfranogi ar sail gyfartal ag eraill. Mae hynny'n golygu bod angen i leoliadau sicrhau bod pob plentyn yn cael profiadau teg ar draws pob maes, y tu mewn i'r dosbarth a'r tu allan iddo. Gall hyn gynnwys cynllunio ac addasu gweithgareddau fel eu bod yn datblygu galluoedd a chapasiti pob disgybl , ac mae angen hefyd iddo gynnwys dealltwriaeth o gyfranogiad a dileu rhwystrau i gyfranogiad wrth ddysgu ac mewn gweithgareddau cyfoethogi ehangach megis clybiau ysgol, grwpiau a theithiau.

Mae angen i leoliadau atal a thaclo gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol. Weithiau bydd plant yn wynebu gwahaniaethu uniongyrchol oherwydd eu hunaniaeth, er enghraifft, bwlio ar sail rhagfarn. Gall plant hefyd brofi gwahaniaethu anuniongyrchol, er enghraifft, ar ffurf diffyg amrywiaeth yn y cwricwlwm.

Er mwyn dileu gwahaniaethu, dylai lleoliadau sefyll yn rhagweithiol yn erbyn enghreifftiau ohono. Mae hyn yn golygu bod angen i'r holl staff, dysgwyr a'r gymuned ehangach gydweithio i sicrhau nad yw plant yn profi gwahaniaethu o unrhyw fath. Dylai lleoliadau sefydlu camau gweithredu clir sy'n herio'n benodol gamwahaniaethu ar bob sail, er enghraifft trwy fabwysiadu dull gweithredu gwrth-hiliol, gwrth-rywiaethol neu wrth-alluaethol. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth, ond mae'n dangos y mathau o ddulliau gweithredu rhagweithiol y mae modd i leoliad eu mabwysiadu. Mae dulliau o'r fath yn mynd y tu hwnt i'r pwyslais a gafwyd yn y gorffennol ar 'ddathlu amrywiaeth', er enghraifft (er bod hynny i'w groesawu), gan eu bod yn mynd i'r afael yn rhagweithiol â chamwahaniaethu systemig.

Yn ogystal ag atal gwahaniaethu yn erbyn plant â nodweddion gwarchodedig, mae'n rhaid i leoliadau addysg hefyd weithredu i atal gwahaniaethu ar sail tlodi. Bydd angen i leoliadau addysg roi cyfrif am effaith gwahaniaethu lluosog yn ogystal: sef pan fydd plant yn wynebu gwahaniaethu yn eu herbyn ar fwy nag un sail (e.e. plentyn anabl sy'n byw mewn tlodi). Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gefnogi lleoliadau yn hyn o beth o dan Ddyletswydd Sosio-Economaidd Deddf Cydraddoldeb 2010.

Er mwyn rhoi'r egwyddor ar waith, dylai lleoliadau geisio:

- Cynnwys **ymrwymiad clir i weithredu yn erbyn unrhyw fath o gamwahaniaethu** yn eu polisïau a'u gweledigaeth, a rhannu hynny ar ffurf neges glir a chyson gyda chymuned yr ysgol. Sicrhau bod y staff a'r plant yn gyffredinol yn deall goblygiadau gwahaniaethu, ac yn ymfalchïo yn y ffaith bod eich lleoliad yn gweithredu ar hyn.
- Cefnogi plant a phobl ifanc i **sefyll yn weithredol yn erbyn gwahanol fathau o gamwahaniaethu**. Er enghraifft, bydd adnodd y Comisiynydd Plant, Taclo Islamoffobia, yn cefnogi eich lleoliadau i weithredu'n benodol yn erbyn gwahaniaethu ar sail ffydd. Bydd adnodd y Comisiynydd Plant ar destun pontio'r cenedlaethau yn eich cefnogi i weithredu'n gadarnhaol yn erbyn gwahaniaethu ar sail oed.
- Gofalwch fod eich lleoliad yn **cymryd tlodi i ystyriaeth**: mae ein hadnoddau Cofia Ceri a Gwyrdd-droi yn helpu arweinwyr ysgol, llywodraethwyr a dysgwyr i sicrhau na fydd unrhyw blentyn yn profi gwahaniaethu oherwydd tlodi.
- Datblygu **agwedd sy'n gwrthod gwahaniaethu** yng nghyswllt cyfranogiad. Bydd hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn cael **cyfle cyfartal i leisio barn** a bod yn rhan o wneud penderfyniadau. Bydd ein cynghorion gwych ar gyfer gwella cyfranogiad yn cefnogi hyn.
- Galluogi pob plentyn, person ifanc ac aelod o staff i **archwilio ac ymfalchïo yn eu hunaniaeth bersonol unigryw eu hunain**, a dathlu'r gwahanol hunaniaethau yn eich lleoliad. Gallwch chi ddefnyddio adnodd Fi yw Fi y Comisiynydd Plant i gefnogi hyn.



- **Casglu data meintiol perthnasol** fel bod modd adnabod grwpiau o blant neu bobl ifanc a all fod yn wynebu anghydraddoldeb. Dylai'r data dadansoddi hwn gynnwys ffocws ar y canlynol:
  - **Cynnydd addysgol** wedi'i rannu yn ôl nodweddion gwarchodedig a chefndir sosio-economaidd
  - **Pob achos a math o fwlio**, fel y nodwyd yng nghanllawiau gwrthfwlio statudol Llywodraeth Cymru. Dylai hyn gynnwys cofnodi mathau penodol o fwlio sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig. Adolygu'r data hwn yn rheolaidd a'i ddefnyddio i gynllunio camau ataliol er mwyn ymateb i faterion penodol yn eich lleoliad.
  - **Defnyddio ataliaeth**. Dylai hyn gael ei gofnodi a'i ddadansoddi, gan roi cefnogaeth briodol i'r staff a'r plant. Cewch hyd i argymhellion y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynghylch ataliaeth yma. Cewch hyd i fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau arferion ataliol yma.
  - **Achosion pan gaiff plant eu hynysu** oddi wrth eu cyfoedion, er enghraifft, eu cau allan o'r dosbarth neu eu cadw ar eu pennau eu hunain yn ystod amser egwyl. Dadansoddi'r wybodaeth hon er mwyn cael hyd i ddulliau eraill o gefnogi plant a sicrhau bod yr ynysu'n gyfyngedig. Cewch hyd i ragor o wybodaeth am ynysu, gwaharddiadau a phecyn offer sy'n gallu helpu i atal defnyddio ynysu gyda phlant ifanc yma.
- **Cynnwys data ansoddol** yn ogystal â meintiol: **gofyn i blant** am eu profiadau i'ch helpu i ganfod anghydraddoldebau. Hefyd gall plant gyfranogi neu arwain ymchwil cyfoedion er mwyn dysgu am brofiadau a safbwyntiau.
- Datblygu **rhaglenni gweithredu wedi'u targedu** er mwyn sicrhau cydraddoldeb ar gyfer grwpiau o blant sydd wedi'u cau allan, ar y cyrion yn gymdeithasol ac o dan anfantais. Mewn rhai achosion, gall eich grant datblygiad disgyblion helpu i ddarparu adnoddau ar gyfer hyn.
- Mynnu bod **gwasanaethau a phrofiadau allanol** yn cael eu darparu mewn ffyrdd sydd ddim yn gwahaniaethu yn erbyn plant neu grwpiau o blant, er enghraifft: ymweliadau ysgol; ymwelwyr â'r lleoliad; gwasanaethau cerddoriaeth; trafnidiaeth. Sicrhau bod darparwyr allanol yn galluogi plant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol i gyfranogi'n llawn mewn profiadau.
- Archwilio amrywiaeth cynrychiolaeth ar draws eich cwricwlwm a chynnwys plant yn hynny. **Nodi cyfleoedd i gynyddu cynrychiolaeth amrywiol** fel bod eich dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o fywydau a chyflawniadau pobl anabl a phobl sy'n wahanol o ran rhyw, rhywedd, hil, crefydd, oed a rhywioldeb.
- Yn unol â'r Côd ACR, sicrhau bod eich Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn **gynhwysol o ran LHDTC+**, a'ch bod yn **hybu cydraddoldeb rhywedd** ar draws holl gymuned yr ysgol.
- Fel y nodir yng nghanllawiau gwrthfwlio statudol Llywodraeth Cymru, **cofnodi pob achos a math o fwlio**, gan amlinellu mathau penodol o fwlio sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig. Adolygu'r data hwn yn rheolaidd a'i ddefnyddio i gynllunio camau ataliol mewn ymateb i faterion penodol yn eich lleoliad.

### Astudiaethau Achos: **Ysgol Clywedog: gweithio gyda chymunedau i oresgyn rhwystrau rhag derbyn addysg**

Ysgol 11-16 oed cyfrwng Saesneg yw Ysgol Clywedog yn Wrecsam. Gyda chymorth Gwasanaeth Addysg i Deithwyr Wrecsam, mae'r ysgol wedi bod yn canolbwyntio ar gynorthwyo pobl ifanc nad ydynt wedi'u cofrestru â lleoliad addysg i integreiddio yn yr ysgol trwy weithio gyda theuluoedd i ddatblygu pecyn cwricwlwm pwrpasol.

Mae Rhian Parry, Swyddog Cynhwysiant y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr yn esbonio, **'Yn draddodiadol mae rhai o'n teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn teimlo bod y cwricwlwm yn gallu bod yn llai perthnasol i'w plant. Mewn ymateb, mae Ysgol Clywedog wedi datblygu cwricwlwm pwrpasol ar gyfer rhai dysgwyr nad oedden nhw'n ymwneud ag unrhyw leoliad o'r blaen. Mae'r bobl ifanc a'u rhieni yn cyfrannu at ddylunio eu hamserlen, ac yn cael ymdeimlad o berchenogaeth ar yr hyn maen nhw'n ei ddysgu. Mae hyn yn fodd i'r bobl ifanc gyflawni deilliannau: maen nhw'n derbyn cymwysterau, yn cael eu cynnwys yn y system addysg ehangach ac yn datblygu hunan-barch.'**

Mae staff Ysgol Clywedog wedi dod i ddeall diwylliant Sipsiwn a Theithwyr mewn modd cynhwysol, ac wedi cryfhau cysylltiadau â'r gymuned. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi calonogi teuluoedd ac maen nhw wedi mynd ati i ofyn am gyfleoedd i frodyr a chwiorydd iau. Ymhlith yr enghreifftiau o'r cwricwlwm amgen a ddarperir gan yr ysgol mae: gwaith adeiladu; sgiliau ffordd o fyw; llesiant; coginio; rheoli cyllid; cyllidebu; hanes celf; cerddoriaeth; barddoniaeth; gwneud dillad; gwallt a harddwch. Mae rhai o'r rhain yn gyrsiau wedi'u hachredu sy'n fodd i bobl ifanc dderbyn cymwysterau.

Mae Rhian Parry yn disgrifio'r effaith hirdymor ar y bobl ifanc, **'Trwy ddeall rhai o'r rhwystrau blaenorol rhag derbyn addysg a gweithio i'w goresgyn, bu modd i'r bobl ifanc gael golwg ar ddyfodol sy'n cwmpasu eu diwylliant a'u hunaniaeth, ac yn eu galluogi i ddilyn llwybr at addysg bellach a hyfforddiant. Am y tro cyntaf, mae'r bobl ifanc rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn sylweddoli bod y ddau beth yn bosibl.'**

Astudiaethau Achos: **Coleg Cambria: Bod yn Gynhwysol mewn Addysg ôl-16 a Chyflogaeth**

Coleg Addysg Bellach yng Ngogledd-ddwyrain Cymru yw Coleg Cambria. Nodir isod ddwy raglen waith sydd wedi galluogi cynhwysiant ar gyfer pobl ifanc anabl a niwroamrywiol.

**Rhaglen 1: Dileu rhwystrau sy'n atal cynhwysiant ar gyfer dysgwyr niwroamrywiol**

Mae Coleg Cambria wedi ymateb i anghenion a dyheadau pobl ifanc niwroamrywiol yn y gymuned leol trwy ddatblygu dull arloesol o ymdrin â phontio, rhaglenni dysgu a chymorth cymdeithasol. Cyflawnwyd hyn trwy:

- Broses bwrpasol ar gyfer dysgwyr awtistig sy'n pontio i'r coleg. Mae hyn yn cynnwys mynd ati i gysylltu â dysgwyr ar ôl iddynt gyflwyno cais i'r coleg a gweithio'n uniongyrchol gyda nhw i ddatblygu eu cynllun pontio eu hunain. Mae'n cynnwys cymorth mentora a chymorth gyda thrafnidiaeth a chyfnodau cymdeithasol hefyd.
- Rhaglen bwrpasol sy'n cynyddu sgiliau bywyd a hyder dysgwyr awtistig. Mae NeuroTech yn gynllun cydweithredol rhwng yr Adran Cynhwysiant a'r Technolegau Cyfrifiadurol i greu cwrs TG pwrpasol ar gyfer dysgwyr niwroamrywiol sy'n gallu wynebu rhwystrau rhag cyfranogi mewn cwrs prif ffrwd. Bydd y dysgwyr yn cael cymorth gan Fentor ASC a Chynorthwywyr Cymorth Cynhwysiant. Darperir cynllun a chymorth er mwyn camu ymlaen o'r ddarpariaeth hon i gyrsiau prif ffrwd.
- Darparu clwb a lle diogel ar gyfer dysgwyr niwroamrywiol yn y coleg. Dywedodd dysgwyr awtistig wrth staff fod amser cinio ac amser egwyl yn gallu bod yn heriol ac y byddai mannau sy'n lleddfu'r synhwyrau yn helpu. Mewn ymateb, datblygwyd N-GAGE, sef man lleddfu'r synhwyrau â chefnogaeth lawn sydd ar gael ar bob safle. Mae N-Gage yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol yn ogystal â lle digyffro.

Mae'r coleg yn cefnogi egwyddorion CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl trwy gynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr na fyddent yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth brif ffrwd fel arall yn eu hardal leol. Sicrheir cydraddoldeb trwy ddarparu dulliau gweithredu wedi'u haddasu ar gyfer yr unigolyn, a'u defnyddio i ddileu rhwystrau rhag llwyddiant. Mae ffocws ar ddarparu cymorth a datblygu sgiliau mewn meysydd sy'n arbennig i bob dysgwyr, fel cyfathrebu cymdeithasol, gwytnwch a hunaneffeithiolrwydd. Roedd pob aelod o garfan 2020/21 wedi aros ar raglenni'r coleg a'u cwblhau yn llwyddiannus, ac aeth 60% o'r grŵp hwn ymlaen i gyrsiau prif ffrwd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Coleg wedi cofnodi cynnydd o 26% yn nifer y ceisiadau gan ddysgwyr awtistig.

**Rhaglen 2: Menter gymdeithasol dan arweiniad y myfyrwyr sy'n galluogi cyfleoedd cyfartal**

Yn 2021 sefydlwyd siop goffi dros dro o'r enw "Coffe-Equality" i alluogi myfyrwyr anabl i gael profiad gwaith. Dechreuwyd y prosiect hwn gan dri myfyriwr sy'n anabl eu hunain. Bu'r grŵp yn gweithio gyda thîm masnach y coleg, myfyrwyr lletygarwch ac arlwyo, a gofal plant i greu siopau coffi dros dro, gan hysbysebu'r digwyddiadau a chodi arian at achosion da. Roedd gan yr holl ddysgwyr a fu'n ymwneud â'r rhaglen anghenion dysgu ychwanegol a chawsant eu mentora gan gyfoedion sy'n fyfyrwyr Lefel 3 mewn Lletygarwch ac Arlwyo.

Mae Rona Griffiths, Rheolwr Profiadau Dysgwyr a Menter yn esbonio, **"yn sgîl y prosiect roedd y tîm cyfan yn teimlo balchder a chyflawniad ac ymdeimlad o berthyn. Holl ethos Coffe-Equality oedd cynnig cyfleoedd i bobl sy'n gallu wynebu rhwystrau ychwanegol a chamwahaniaethu wrth geisio cael profiad gwaith. Roedd hwn yn rhywbeth pendant a sicr ar gyfer CV pob person ifanc. Cymerodd y tri myfyriwr a ddechreuodd y prosiect hwn gamau cadarnhaol i gefnogi eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill."**

## Grymuso Plant

Dylai hawliau dynol rymuso plant. Ystyr grymuso yw datblygu galluoedd a sgiliau plant fel eu bod yn gallu manteisio'n well ar eu hawliau, ac ymgysylltu â'r unigolion a'r sefydliadau hynny sy'n effeithio ar eu bywydau, dylanwadu arnyn nhw a'u galw i gyfrif.

Mae grymuso yn un o gysyniadau canolog y model anabledd cymdeithasol, seiliedig ar hawliau, a geir yn CCUHPA. O dan y model hwn, mae pobl ag anableddau wedi'u grymuso, â rheolaeth ar eu bywydau, ac yn mwynhau cyfranogiad llawn ar sail gyfartal ag eraill. Y Llywodraeth a'r gymdeithas ehangach sydd â'r ddyletswydd o sicrhau'r cyfle hwn, nid y person ei hun.

Gall grymuso plant mewn lleoliad addysg eu grymuso hefyd yn eu bywyd gyda'u teulu, yn eu cymuned, ac fel dinesydd. Mae plant sydd wedi'u grymuso yn gwybod bod ganddyn nhw hawliau ac y dylen nhw gael eu cymryd o ddifri. Mae hynny'n golygu eu bod nhw'n gallu codi llais am eu barn a'u profiadau a mynegi pryderon os nad ydyn nhw'n derbyn eu hawliau.

Mae grymuso plant yn un o ganlyniadau hanfodol thema addysg hawliau dynol, sy'n croesdorri cwricwlwm Cymru. Mae hyn yn defnyddio'r elfennau o addysg hawliau dynol a welir yn Erthygl 2 o Ddatganiad y CU ar Addysg a Hyfforddiant Hawliau Dynol ac yn nodi y bydd plant yn:

- Dysgu *am* hawliau dynol (caffael gwybodaeth am hawliau dynol, CCUHP a CCHUPA);
- Dysgu *trwy* hawliau dynol (datblygu a phrofi gwerthoedd, agweddau a mathau o ymddygiad sy'n adlewyrchu egwyddorion hawliau dynol);
- Dysgu ar *gyfer* hawliau dynol (caiff plant eu grymuso fel dinasyddion gweithredol i hybu parch at hawliau pawb).

Mae grymuso hefyd yn rhan hollbwysig o gwricwlwm Cymru, a seiliwyd ar ddibenion, ac mae'n hanfodol er mwyn galluogi'r pedwar diben mewn modd cyfannol. Mae'r awgrymiadau isod yn cefnogi ystyriaethau dylunio'r cwricwlwm mewn lleoliadau ac mae modd eu hintegreiddio'n uniongyrchol â'r dysgu yn y Dyniaethau, yn arbennig mewn perthynas â'r datganiad canlynol ynghylch beth sy'n bwysig: *Dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol sy'n mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd mae'r ddynoliaeth yn eu hwynebu, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.* Mae'r awgrymiadau hefyd yn cefnogi camau dilyniant Iechyd a Llesiant yn uniongyrchol, yn arbennig mewn perthynas â'r disgrifiadau o ddysgu sy'n llywio'r datganiad canlynol ynghylch beth sy'n bwysig: *Mae cydberthnasoedd iach yn hanfodol i'n llesiant.*

Er mwyn grymuso plant, mae angen i'r holl unigolion mewn lleoliad ddeall bod plant yn ddeiliaid hawliau. Ystyr grymuso yw sicrhau bod gan blant yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i wneud dewisiadau ac i effeithio ar ganlyniadau iddynt eu hunain a'u cymunedau. Mae grymuso yn newid y berthynas rhwng plant a gweithwyr proffesiynol. Mae'n golygu bod oedolion yn rhannu pŵer gyda phlant, er mwyn i blant fedru rheoli a chyfeirio'u bywydau'n well, yn arbennig mewn meysydd lle nad oedd y gallu hwnnw ar gael iddyn nhw o'r blaen.

Mae'r egwyddor hon hefyd yn berthnasol i blant iau, a dylid ei gweld fel cyfraniad pwysig at ddatblygiad y plentyn. Gallai fod yn arbennig o berthnasol i blant sy'n aelodau o grwpiau cymdeithasol sydd wedi'u cau allan, ar y cyrion neu o dan anfantais.

Er mwyn rhoi'r egwyddor ar waith, dylai lleoliadau geisio:

- Darparu **cyfleoedd i blant weithredu ar y cyd** i ddatblygu syniadau a chynigion fydd yn cyflawni newid **yn eich lleoliad**. Ystyried sut gall pob plentyn fod yn rhan o hyn, a datblygu ffyrdd i'ch cyngor ysgol a'ch grwpiau llais y disgybl fedru cynrychioli eich holl ddysgwyr. Bydd ein hadnoddau i gefnogi cynghorau ysgol yn helpu gyda hyn.
- Gwneud yn siŵr bod plant ar eich cyngor ysgol a grwpiau eraill llais y disgybl yn gallu **dylanwadu'n ystyrlon ar benderfyniadau yn eich lleoliad.** Sefydlu prosesau clir ar gyfer sut mae eich grwpiau llais y disgybl yn dylanwadu ar benderfyniadau am eich cwricwlwm, eich addysgeg a phrofiadau ehangach. Gwneud yn siŵr bod y staff a'r llywodraethwyr yn deall y broses hon fel eu bod yn rhannu penderfyniadau gyda'r dysgwyr.
- Gwneud yn siŵr bod **dysgwyr yn cael hyfforddiant** i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau er mwyn cyfranogi. Er enghraifft, os ydych chi'n lleoliad uwchradd, sicrhau bod eich llywodraethwyr cyswllt disgyblion yn cael eu hyfforddi i ddeall beth mae eich corff llywodraethu yn ei wneud ac yn datblygu eu sgiliau i gymryd rhan.
- Fel **tîm o staff, rhannu syniadau, dysgu ac adnoddau** ynghylch sut rydych chi'n grymuso plant yn eich lleoliad: i ba raddau rydych chi'n teimlo bod eich dysgwyr yn cael eu grymuso yn eu haddysg, eu bywyd teuluol, eu cymuned ehangach ac fel dinasyddion? Oes ganddyn nhw'r sgiliau a'r wybodaeth i godi llais os nad ydyn nhw'n derbyn eu hawliau dynol? Beth arall gallwch chi ei wneud i alluogi hyn?
- Darparu cyfleoedd, adnoddau ac addysg i blant **weithredu ar y cyd fel dinasyddion egwyddorol, gwybodus yn eich cymuned ehangach.** Mae gan y Comisiynydd Plant becyn offer i gefnogi hyn: Gwneud gwahaniaeth – canllaw person ifanc i weithredu.

- **Cysylltu llais y disgybl â hawliau dynol plant.** Gwneud yn siŵr bod pawb yn eich lleoliad yn deall sut mae eich grwpiau llais y disgybl a chyngor yr ysgol yn gyfrwng ar gyfer hawl ddynol plant i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Defnyddio iaith hawliau a'r confensiynau i wneud hyn.
- Defnyddio **iaith ddealladwy.** Adolygu eich cyfathrebu i sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn derbyn gwybodaeth syml am eich lleoliad ac am eu dysgu eu hunain. Defnyddio iaith syml, glir ar gyfer pob gohebiaeth. Cefnogi'r testun â lluniau, symbolau ac ymadroddion mewn ieithoedd cymunedol os yw hynny'n briodol. Gwneud yn siŵr bod plant a theuluoedd yn gallu deall eich marciau a'ch adroddiadau.
- Defnyddio **cynllunio person-ganolog** i sicrhau bod plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu galluogi i fod yn rhan o ddatblygu eu Cynllun Datblygiad Unigol. Gwneud yn siŵr bod plant yn **deall yr wybodaeth** yn eu Cynllun Datblygu Unigol trwy deilwra'r cynllun i sicrhau ei fod yn defnyddio iaith, lluniau neu symbolau sy'n hybu dealltwriaeth. Hefyd gall plant greu a dylunio'u proffil un tudalen eu hunain.
- Sicrhau bod **data a gasglwyd am blant ar gael** iddyn nhw mewn ffordd briodol. Gall hyn gynnwys data allanol, fel yr Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr. Gwneud yn siŵr bod plant yn cael cyfleoedd i rannu mewn penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a strategaethau'r ysgol ar sail y data yma.
- Defnyddio iaith hawliau wrth **gefnogi plant trwy ymarfer adferol.** Helpu plant i ddeall sut mae hyn yn cefnogi eu hawliau i fynegi eu barn a chael gwrandawiad (Erthygl 12), i fod yn ddiogel (Erthygl 19), i ymuno â grwpiau (Erthygl 15) ac i ddysgu (Erthyglau 28 a 29).
- Cefnogi'r dysgu ym Meysydd Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a Iechyd a Llesiant trwy sicrhau bod gan blant wybodaeth a chyfleoedd i **ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hawliau dynol.** Defnyddio adnoddau'r Comisiynydd Plant i gefnogi hyn.
- Ymuno â chynlluniau Llysgenhadon dwyieithog, hygyrch, di-dâl y Comisiynydd er mwyn sicrhau bod plant yn derbyn **gwybodaeth hygyrch am y Comisiynydd Plant** a chyfleoedd i archwilio'u hawliau.
- Cysylltu'r dysgu â Nodau Llesiant Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a chefnogi plant i weld sut mae eu dysgu yn eu cefnogi i weithredu fel dinasyddion yng Nghymru a'r byd. Mae adnoddau i gefnogi hyn ar gael yma.

Astudiaethau Achos: **Anturiaethau Organig Cwm Cynon: grymuso pobl ifanc mewn lleoliadau amgen**

Menter Gymdeithasol yn ardal Rhondda Cynon Taf yw Anturiaethau Organig Cwm Cynon (COVA). Mae'n Goleg Achrededig sy'n cynnig addysg a chymwysterau wedi'u hachredu sy'n darparu ar gyfer amrediad o anghenion a grwpiau oedran. Mae'r sefydliad hefyd yn cefnogi lleoliadau gwirfoddol, gweithgareddau presgripsiwn cymdeithasol ac yn cynnal digwyddiadau cymunedol rheolaidd.

Ar ddechrau'r pandemig, bu'r sefydliad yn darparu parseli bwyd a chymorth i'r gymuned a thrwy hynny cafodd y gweithwyr proffesiynol wybodaeth o lygad y ffynnon am rai o'r heriau difrifol oedd yn wynebu unigolion a theuluoedd. Daeth y sefydliad i wybod am bobl ifanc oedd yn cael trafferth cysylltu ag unrhyw fath o addysg ac yr oedd mwy o risg y bydden nhw'n dioddef niwed yn ystod y cyfnodau clo am nad oedd systemau cymorth yn gweithio yn yr un ffordd.

O ganlyniad, gweithiodd COVA mewn partneriaeth gydag Ysgol Nantgwyn a Gyrfa Cymru i dreialu darpariaeth addysg amgen ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed. Grymuso pobl ifanc oedd wrth wraidd nodau'r lleoliadau, a oedd yn cynnwys cyfuniad o raglenni llesiant seiliedig ar natur a dysgu achrededig. Rhan allweddol o'r gwaith grymuso hwn oedd meithrin sgiliau a hyder y bobl ifanc trwy gynllun mentora gan gyfoedion. Rhannai'r staff neges gyson â'r bobl ifanc, sef eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi a'u derbyn ar eu lefel datblygiad unigol, a buon nhw'n helpu'r bobl ifanc i gyflawni cymwysterau o Lefel 1 i Lefel 3 mewn mentora ieuenctid. Roedd helpu'r bobl ifanc i ddatblygu fel mentoriaid cyfoed yn eu galluogi nhw i ddatblygu'r iaith a'r hyder i ddisgrifio eu profiadau eu hunain a'u hesbonio. Galluogodd hynny nhw i ddeall bod eu profiadau'n werthfawr i eraill a bod modd iddyn nhw helpu i greu newid cadarnhaol.

Ar ben hynny, bu'r lleoliad yn cynnal sesiynau grŵp er mwyn gwrando ar flaenoriaethau'r bobl ifanc a'u helpu nhw i greu polisïau yr oedd angen i gyfoedion a staff eu dilyn. Mae'r polisïau hyn wedi cynnwys polisi cydraddoldeb rhywedd sy'n gofyn bod y staff i gyd yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael yr un cyfleoedd i gymryd rhan mewn tasgau a defnyddio offer a chyfarpar. O ganlyniad, mae angen bod unrhyw aelod o staff sy'n stereoteipio ar sail rhywedd wrth ddyrannu tasgau yn rhoi £1 yn y bocs elusen.

Astudiaethau Achos: **Ysgol Heronsbridge: hawliau plant ym mhob rhan o ddyluniad y cwricwlwm**

Ysgol arbennig breswyl yn ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yw Ysgol Heronsbridge. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer plant a phobl ifanc 3-19 oed.

Fel ysgol arloesi ar gyfer y cwricwlwm newydd yng Nghymru, mae staff a disgyblion yr ysgol wedi integreiddio hawliau plant ym mhob rhan o ddyluniad eu cwricwlwm. Dewisodd plant yr ysgol yr erthyglau o CCUHP sy'n arbennig o bwysig iddyn nhw, ac fe aeth y staff ati i gysylltu'r rhain yn uniongyrchol â gwerthoedd yr ysgol a dibenion y cwricwlwm. Adlewyrchir hyn yn eu cyfathrebu â theuluoedd, a thrwy'r addysgu a'r dysgu. Yn ogystal, mae'r staff wedi mapio pob Maes Dysgu a Phrofiad i'r erthyglau hawliau plant, ac wedi cysylltu pob un o'u cynlluniau gwaith â'r hawliau, gan sicrhau bod y plant yn dod i ddeall yr hawliau hyn wrth iddyn nhw ddysgu. Mae'r ysgol hefyd wedi cynnwys y gyfres o ddeg gwers hygyrch a luniwyd gan y Comisiynydd Plant yn eu gwaith cynllunio, a bu'r plant yn dysgu am eu hawliau ac yn eu harchwilio gan ddefnyddio'r adnoddau a'r gweithgareddau hyn yn yr ystafell ddosbarth.

Mae Lisa James-Smith, Dirprwy Bennaeth yr ysgol, yn esbonio pam mae hyn mor bwysig, **"Ysgol arbennig ydyn ni ac mae cyfathrebu yn gallu bod yn anodd i lawer o'n plant ni. Mae hawliau plant wedi hoelio sylw pawb ar sut gallwn ni alluogi'r plant i leisio'u barn. Rydyn ni bob amser yn ceisio gwrando ar ein plant fel sydd ei angen arnyn nhw, ac mae hynny wedi'n galluogi ni i ddeall ein rôl o ran chwyddo eu llais, a sicrhau bod dewisiadau ganddyn nhw a bod eu hanghenion yn cael eu bodloni."**

**"Mae gwybod bod hawliau ganddyn nhw yn grymuso ein plant, ac mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i'w bywyd y tu allan i'r ysgol hefyd. Rydyn ni'n rhoi'r sgiliau iddyn nhw allu dweud wrthyn ni os ydyn nhw'n teimlo nad oes neb yn gwrando arnyn nhw. Maen nhw'n sylweddoli o ddifri bod llais ganddyn nhw. Trwy gysylltiadau ag ysgolion rhyngwladol, rydyn ni hefyd wedi datblygu eu dealltwriaeth o blant o amgylch y byd. Mae hyn wedi'u helpu nhw i ddeall bod gan bob plentyn hawliau."**



## Cyfranogiad

Ystyr cyfranogiad yw gwrando ar blant a chymryd eu barn i ystyriaeth. Dylid cefnogi pob plentyn i fynegi eu barn yn rhydd; dylen nhw gael eu clywed a'u gwrando. Mae hynny'n golygu bod angen cyfleoedd ar blant i godi llais, ond hefyd y dylid cymryd eu barn o ddifri wrth wneud penderfyniadau neu gymryd camau sy'n effeithio ar eu bywydau. Dylai plant gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â nhw yn unigol ac ar y cyd. Mae cyfranogiad effeithiol yn golygu bod llais pob plentyn yn cael ei ddeall fel un cyfartal o ran pwysigrwydd, a bod gan bob plentyn gyfleoedd i ddewis bod yn rhan o benderfyniadau.



Mae cyfranogiad yn egwyddor sy'n croesdorri dau Gonfensiwn y CU. Mae hyn yn golygu bod angen gwireddu anghenion cyfranogiad er mwyn gwireddu holl hawliau eraill CCUHP a CCUHPA. Mae cyfranogiad hefyd yn egwyddor allweddol ar gyfer sut dylai lleoliadau ddylunio eu trefniadau cwricwlwm ac asesu eu hunain.

Mae cysyniad cyfranogiad llawn ac effeithiol yn golygu bod pob plentyn, gan gynnwys plant anabl, yn cael eu cydnabod fel cyfranogwyr cyfartal mewn prosesau cysylltiedig â phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Bydd angen i farn plant gael ei chymryd i ystyriaeth, gan roi pwys dyledus ar eu safbwyntiau yng ngoleuni eu hoed a'u haeddfedrwydd, ond nid yw oed ifanc neu anaeddfedrwydd cymharol yn rheswm dros ddiystyru barn plant na rhoi llai o sylw iddyn nhw wrth fynd ati i wneud penderfyniadau.

Mae cyfranogiad yn mynd y tu hwnt i ymgynghori ac yn cynnwys hysbysu plant yn llawn, gan eu galluogi i fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau, a chreu'r posibilrwydd o leisio barn a chwyno pan wrthodir caniatáu cyfranogiad.

Os yw cyfranogiad i fod yn effeithiol, mae angen canfod adnoddau a neilltuo amser digonol i alluogi prosesau gwneud penderfyniadau. Mae cyfranogiad llawn, ystyrlon gan blant a phobl ifanc anabl yn galw am amgylchedd corfforol a chymdeithasol sy'n hygyrch ac yn ddirwystr. Dylid nodi elfennau sy'n rhwystro cyfranogiad, gan gynnwys rhwystrau agwedd, a chael gwared ohonyn nhw.



Dylai fod yn eglur sut mae plant wedi dylanwadu ar benderfyniadau a sut mae eu barn wedi cael ei chymryd i ystyriaeth, gydag adborth bob amser yn cael ei roi i'r plant sy'n rhan o'r broses. Ni ddylid deall cyfranogiad fel nod ynddo'i hun, ond fel proses, sy'n ddiogel, yn alluogol ac yn gynhwysol, gan gefnogi deialog rhwng plant a gweithwyr proffesiynol.

Er mwyn rhoi'r egwyddor ar waith, dylai lleoliadau geisio gwneud y canlynol:

- Cynnwys **ymrwymiad clir i gyfranogiad cynhwysol** plant mewn polisïau allweddol a datganiadau.
- Mabwysiadu'r saith elfen sy'n rhan o'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a datblygu ymwybyddiaeth ohonynt gyda'r holl staff a llywodraethwyr.
- Gwneud yn siŵr bod eich cyfranogiad yn **gynhwysol**. Dylai pawb gael cyfle i gyfranogi. Os byddwch chi'n gweld bod rhai grwpiau o blant ar goll o'ch cyfleoedd cyfranogiad, ymgynghorwch â phlant i ddeall y rhwystrau a'u dileu. Rhaid i Blant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol gael cyfle cyfartal i leisio barn.
- Cydnabod bod gwahanol lefelau o gyfranogiad, sy'n berthnasol i wahanol amgylchiadau. Gall **model cyfranogiad**, fel yr enghreifftiau sy'n cael eu cynnwys yn ein hesboniad ar gyfranogiad i athrawon, helpu i egluro'r gwahanol fathau o gyfranogiad gallwch chi eu defnyddio.
- Gwneud yn siŵr bod plant yn gallu bod yn rhan o **ddylunio ac adolygu eich cwricwlwm**. Galluogi plant i rannu barn a syniadau ar themâu, ac ymateb i ddiddordebau ac anghenion plant wrth gynllunio darpariaeth. Galluogi plant i roi adborth ar ôl cwblhau topig, a sicrhau bod hynny'n rhan o'r broses barhaus o **fireinio eich cwricwlwm**.
- Cynnwys plant yn uniongyrchol wrth fonitro a gwerthuso **addysgeg, addysgu a dysgu**. Sicrhau bod plant yn gallu rhoi adborth ar sut maen nhw'n hoffi dysgu, a'u profiadau wrth ddysgu, yn ogystal â'r cynnwys maen nhw'n ei ddysgu.
- Gwneud yn siŵr bod plant yn gallu cyfranogi wrth ddatblygu ac adolygu **trefniadau asesu**. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod plant yn profi asesu sy'n cefnogi eu dysgu a'u llesiant.
- Cynnwys plant wrth **recriwtio** staff a llywodraethwyr.
- Cynnwys plant wrth wneud penderfyniadau am **gyllideb eich ysgol**. Ystyried sut gall eich cyngor ysgol fod yn rhan o hyn.
- Creu **dewis** ynghylch cynnwys a dulliau dysgu.
- Rhoi **adborth** i blant a staff ynghylch canlyniadau cyfranogiad plant, gan amlygu unrhyw newidiadau a achoswyd gan eu hymwneud â sefyllfa, ac unrhyw resymau os na chafodd eu syniadau eu mabwysiadu.

### Astudiaethau Achos: **Ysgol Ein Harglwyddes: galluogi disgyblion i chwarae rôl weithredol mewn penderfyniadau ar draws y gymuned ysgol gyfan**

Ysgol gynradd yn Aberpennar yw Ein Harglwyddes. Daethon nhw'n rhan o gynllun UNICEF ar gyfer Ysgolion sy'n Parchu Hawliau ym Mehefin 2019 ar ôl ymgorffori hawliau plant ym mholisïau, cynlluniau ac arferion yr ysgol. Mewn ymgynghoriad â Senedd yr ysgol, y Grŵp Llywio Hyrwyddwyr Hawliau (Rights Knights) a'r Llysgenhadon Gwych, dechreuon nhw rannu eu gwybodaeth am hawliau â chymuned ehangach yr ysgol, gan gynnwys rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr, a chynrychiolwyr y plwyf a'r awdurdod lleol.

Mae rhai o uchafbwyntiau'r gwaith hwn yn cynnwys:

- 'Masgotiaid Hawliau' a grewyd gan y plant, oedd yn mynd adref gyda nhw er mwyn i'r disgyblion rannu eu gwybodaeth am hawliau â'u teuluoedd. Bu'r ddau yn mynd adref gyda disgybl gwahanol bob wythnos gydag enghreifftiau o hawliau y gallen nhw eu derbyn yn ystod eu harhosiad.
- Bu'r Grŵp Llywio Hawliau o dan arweiniad y disgyblion yn arwain ymgyngoriadau ynghylch llesiant gyda chymuned gyfan yr ysgol fel rhan o'u gwaith ar gyfer Tasg Arbennig y Comisiynydd Plant yn ystod hydref 2021. Gofynnwyd barn yr holl ddisgyblion, staff a llywodraethwyr, gwerthuswyd yr ymatebion a nodwyd gwelliannau. Yna, rhannodd y disgyblion y canlyniadau â phennaeth yr ysgol a'r llywodraethwr llesiant a fu'n sôn am sut gellid ymgorffori'r syniadau yng nghynllun datblygu'r ysgol.
- Dangosodd yr ymgynghoriad â'r disgyblion fod y plant am ddefnyddio'u hawliau i gyfranogi mwy yn y gymuned leol. Gwahoddwyd arweinydd y cyngor lleol a'r Aelod lleol o'r Senedd i gyfarfod â'r Grŵp Llywio Hawliau. Ar ôl y cyfarfod, ysgrifennodd y disgyblion at arweinydd y cyngor i fynegi pryderon ynghylch difrodi cyfarpar yn y meysydd chwarae lleol. Mewn ymateb, trefnodd yntau ymweliad gan Gydlynydd Parciau Rhondda Cynon Taf a ofynnodd i'r disgyblion lunio posteri i'w harddangos mewn parciau lleol i geisio atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ymgynghorodd tîm cyllid yr awdurdod â'r disgyblion hŷn gan eu galluogi i fynegi barn ar beth, yn eu barn nhw, ddylai blaenoriaethau ariannol yr Awdurdod Lleol fod yn 2019/20.
- Ar gais y disgyblion, bu'r ysgol gyfan yn canolbwyntio ar Gynllun Cardiau Post Paddington gan UNICEF er mwyn cymharu a chyferbynnu hawliau plant yng Nghymru â hawliau plant mewn gwledydd a diwylliannau eraill ar draws y byd. Daeth hyn yn thema ar gyfer clwb ar ôl ysgol yr Hyrwyddwyr Hawliau. Mae'r gwaith bellach wedi arwain at ffocws newydd ar y Nodau Byd-eang a sut mae'r rhain yn effeithio ar hawliau plant yng Nghymru.

### Astudiaethau Achos: **Ysgol Uwchradd Llanisien: llywodraethwyr yn galluogi pobl ifanc i arwain newid**

Ysgol 11-18 oed yng Nghaerdydd yw Ysgol Uwchradd Llanisien. Ysgrifennodd myfyrwyr yr ysgol at Gadeirydd y Llywodraethwyr i esbonio nad oedd y dewis o destunau Llenyddiaeth Saesneg, yn eu barn nhw, yn cyd-fynd ag ethos cynhwysol yr ysgol. Mewn ymateb, cefnogodd y Cadeirydd staff yr ysgol i sefydlu grŵp gorchwyl ar gyfer myfyrwyr ac athrawon i weithio ar y cyd i ddylunio cynllun gwaith Cyfnod Allweddol 3, sef Dathlu Lleisiau mewn Llenyddiaeth.

Yn sgîl y dull gweithredu hwn cynyddwyd amrywiaeth yn y cwricwlwm a galluogi cyfranogiad yn nyluniad y cwricwlwm. Trwy eu galluogi i gymryd rhan mewn gwaith cynllunio bu modd i'r myfyrwyr ddeall mwy am amcanion dysgu a phrosesau asesu. Roedd y bobl ifanc yn gallu cymryd mwy o'r awenau o ran eu dysgu a buon nhw'n cyflwyno eu gwaith i'w cyfoedion trwy'r cyngor ysgol. Gallai'r bobl ifanc weld hefyd bod y Llywodraethwyr a'r staff wedi gweithredu ar sail eu pryderon. Mae'r ysgol yn datblygu'r model cyfranogiad hwn trwy alluogi'r myfyrwyr i lywio'r gwaith cynllunio ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad, ac ar ben hynny, mae'n sefydlu Tasglu Ôl-16 a fydd yn bwrw ati i gynnwys pobl ifanc, llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned leol er mwyn gwireddu'r newidiadau y mae'r bobl ifanc am eu gweld. Y nod yw rhoi lle allweddol i bobl ifanc mewn gwaith datrys problemau sy'n ymwneud â'r amgylchedd ffisegol, cyfleusterau'r ysgol a'r cwricwlwm.

Gan adeiladu ar lwyddiant y prosiect cychwynnol, mae'r staff hefyd wedi archwilio addysgeg effeithiol wrth lunio cwricwlwm nad yw'n hiliol, ac wedi datblygu dewis mwy amrywiol o lyfrau darllen ar draws yr ysgol gyfan. Sefydlwyd Fforwm Cydraddoldebau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr y llywodraethwyr, arweinwyr yr ysgol, y staff a'r dysgwyr. Mae'r fforwm wedi derbyn cyflwyniadau gan Gyngor Hil Cymru a chynnal trafodaethau gyda nhw, ac maen nhw'n edrych ar y posibilrwydd o ddod yn ysgol Wrth-hiliol.

Bu strwythur y Corff Llywodraethu yn elfen allweddol o hyrwyddo dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau. Mae Llywodraethwyr Cyswllt Llais y Myfyrwyr, y Cyngor Ysgol a'r Tîm Uwch-arweinwyr yn cyfarfod bob hanner tymor ac mae'r diweddariadau hyn yn rhan o agendâu'r Corff Llywodraethu. Ceir hefyd gynrychiolwyr myfyrwyr ar bob pwyllgor.

## Atebolrwydd

Mae angen i leoliadau addysg fod yn atebol o ran sut maen nhw wedi ystyried hawliau dynol plant. Dylai lleoliadau fod yn atebol i blant am benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau, a darparu rhesymau am y penderfyniadau a'r camau gweithredu hyn.

Dylid darparu gwybodaeth i blant a rhoi mynediad iddyn nhw i weithdrefnau sy'n eu galluogi i gwestiynu a herio penderfyniadau yn eu lleoliad. I dderbyn unrhyw hawl ddynol, mae'n rhaid i blentyn wybod bod ganddyn nhw hawl i'w derbyn, a gallu mynd ati'n weithredol i ddefnyddio'u hawliau dynol, gan gynnwys wrth wneud cwyn neu herio penderfyniadau a chamau gweithredu.


Mae atebolrwydd yn galw am fonitro i ba raddau mae plant, gan gynnwys plant anabl, yn profi eu hawliau dynol a nodi sut mae modd gwella hyn. Mae hefyd yn galw am roi dulliau unioni effeithiol ar waith ar frys os yw'r lleoliad addysg yn methu â sicrhau hawliau dynol plant, er enghraifft, eu hawl i addysg, chwarae, neu beidio â chamwahaniaethu.

Rhaid i awdurdodau, a'r holl staff sydd â chyfrifoldebau sy'n effeithio ar blant, ddeall bod gan blant hawliau dynol, a bod rhwymedigaeth arnyn nhw i barchu, diogelu a chyflawni hawliau plant. Dylai pawb dan sylw ddeall eu bod nhw'n atebol i blant am gyflawni'r rhwymedigaeth hon.

I roi'r egwyddor hon ar waith, dylai lleoliadau addysg geisio gwneud y canlynol:

- Asesu eich dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant gan ddefnyddio'r **hunanasesiad** hwn, a'i ddefnyddio i nodi meysydd allweddol ar gyfer gwelliant. Cynnwys plant yn yr asesiad hwn, ac wrth nodi meysydd i'w datblygu.
- Galluogi plant i **gyfranogi wrth fonitro'r** targedau ar eich **Cynllun Datblygu Ysgol**; gallech chi ddefnyddio grwpiau llais y disgybl i gefnogi hyn.
- Gallai eich corff llywodraethu (neu strwythur llywodraethu cyfatebol) gynnal Asesiad Effaith ar Hawliau Plant i lywio penderfyniadau allweddol. Bydd hyn yn eu cefnogi i ddefnyddio pum egwyddor y fframwaith i **lywio'u heriau i'r llywodraethwyr a'r craffu ar eu gwaith**. Gallech chi gyhoeddi eich asesiadau ar-lein i esbonio'r penderfyniadau rydych chi'n eu gwneud.
- Gallai **goruchwylio a rheoli perfformiad staff** gynnwys dangosyddion perfformiad sy'n ymwneud â hawliau plant. Er enghraifft, gallech chi ystyried rolau arweiniol ar gyfer pob un o egwyddorion y fframw Dylech chi gysylltu'r dangosyddion hyn â'ch cynllun gweithredu ar hawliau plant (fel sy'n cael ei awgrymu yn yr adran Gwreiddio).
- Gallai eich corff llywodraethu (neu gyfatebol) graffu ar **gyflawni camau gweithredu** yn eich cynllun gweithredu ar hawliau plant.
- Galluogi plant i gyfranogi yn eich **hunanwerthusiad gan ddefnyddio ein templed hunanasesu** a rhannu gwybodaeth am eich gwerthusiad gyda phlant.
- Creu fersiwn hwylus i blant o **adroddiad blynyddol y llywodraethwyr**.
- Gallech chi **strwythuro eich Adroddiad Blynyddol gan ddefnyddio pum egwyddor y fframwaith hwn.** Bydd hyn yn dangos i'ch cymuned gyfan sut mae dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn cefnogi eich gwaith.
- Pennu llywodraethwyr allweddol neu is-bwyllgor llywodraethwyr i **hybu hawliau plant** a chraffu ar eich dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant.
- Darparu gwybodaeth hygyrch am brosesau **gwneud cwynion**.
- Darparu cyfeiriadau clir sy'n dangos sut gall plant a theuluoedd **gyrchu cyngor allanol** a chefnogaeth, er enghraifft, Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor y Comisiynydd Plant.

Sicrhau na chyflwynir neges i blant a phobl ifanc mai nhw sy'n gyfrifol am hawliau pobl eraill na bod modd dileu eu hawliau nhw. Mae hawliau dynol plant yn ddiymwad, hynny yw does dim modd eu dileu. Dyletswydd oedolion yw cynnal eu hawliau. Am y rheswm yma, rydyn ni'n argymell bod lleoliadau addysg ddim yn cyfuno 'hawliau a chyfrifoldebau' mewn arddangosfeydd ac wrth gyfathrebu, ond yn hytrach eu bod nhw'n eu trafod ar wahân gyda phlant. Trwy wybod am hawliau, gall plant a phobl ifanc gael eu hannog i gefnogi a pharchu hawliau pobl eraill, a deall bod eu gweithredoedd yn gallu effeithio ar hawliau pobl eraill. Gall plant hefyd archwilio sut maen nhw'n cydbwyso eu hawliau eu hunain â hawliau pobl eraill yn lleoliad yr ysgol neu'r gymuned.



### Astudiaethau Achos: **Ysgol Uwchradd Aberteifi: atebolrwydd i'r cyngor ysgol**

Ysgol ddwyieithog i ddisgyblion 11-18 mlwydd oed yw Ysgol Uwchradd Aberteifi yng Ngheredigion.

Mae bod yn atebol i blant a phobl ifanc yn un o ddeilliannau allweddol cyfranogiad yn yr ysgol, ac mae'r cyngor ysgol yn rhan annatod o wneud newidiadau. Ymgynghorir â'r cyngor ysgol ar bob agwedd ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys addysgu a dysgu, a marcio ac asesu. Casglodd y cyngor farn y disgyblion ar effeithiolrwydd y polisi marcio ac asesu a chyflwynodd y canfyddiadau a'r gwelliannau a argymhellwyd i'r tîm uwch-reolwyr. Derbyniwyd argymhellion y disgyblion a'u rhannu ag arweinwyr cyfadran, a chafodd y disgyblion eu cynnwys yn y gwaith o fonitro'r dysgu ac adolygu cynllun datblygu'r ysgol.

Yn ogystal â'r adolygiad marcio ac asesu, mae'r disgyblion yn mynd ati ddwywaith y flwyddyn i lenwi arolwg addysgu a dysgu ysgol gyfan. Mae'r canlyniadau'n llywio adolygiadau, hunanwerthusiad a chynlluniau gwella'r cyfadrannau. Mae'r cyngor ysgol yn cynnal arolygon ar-lein i gasglu barn y disgyblion. Er enghraifft, fe ddatblygodd y 'Côd 10 pwynt ar gyfer Athrawon Da' trwy gasglu barn y disgyblion ar strategaethau a dulliau addysgu. O ganlyniad, mireiniwyd model yr ysgol ar gyfer addysgu a dysgu. Datblygodd y disgyblion a'r staff y gwaith hwn er mwyn cynnwys y 'Côd Dysgwyr Da'.

Mae'r cyngor ysgol yn cydweithio'n agos â'r corff llywodraethu. Mae disgyblion-lywodraethwyr cyswllt yn bresennol yng nghyfarfodydd tymhorol y corff llywodraethu ac mae pob agenda yn cynnwys eitem benodedig ynghylch y cyngor ysgol. Maen nhw'n chwarae rhan weithredol wrth recriwtio staff newydd, gan gymryd rhan mewn arsylwi ar wersi pan benodir staff newydd, cynnal eu panel cyfweld eu hunain a rhoi adborth i'r llywodraethwyr a'r uwch-arweinwyr ar y panel penodi.

### Astudiaethau Achos: **Coleg Pen-y-bont ar Ogwr: "Fe Ddwedsoch Chi ... Fe Wnaethon Ni ..."**

Coleg Addysg Bellach ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw Coleg Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Coleg wedi datblygu cyfranogiad trwy fframwaith llais y dysgwr sy'n sicrhau bod y coleg yn atebol i'r myfyrwyr ynghylch sut mae eu barn a'u profiad wedi arwain at newid.

Ar lefel strategol, gall y myfyrwyr ddarparu maniffestos a chymryd rhan mewn proses ddemocrataidd i sicrhau statws Myfyriwr-lywodraethwr. Mae ganddyn nhw sedd ar y Bwrdd Llywodraethwyr ac maen nhw'n cael cymorth gan yr Arweinwyr Ymgysylltu â'r Myfyrwyr a Chlerc y Corff Llywodraethu. Yn gysylltiedig â hyn mae cynrychiolwyr cwrs, cynrychiolwyr academaidd myfyrwyr a llysgenhadon coleg, sy'n galluogi'r myfyriwr-lywodraethwr i ymgysylltu â barn pob rhan o'r corff o fyfyrwyr. Cefnogir y myfyrwyr sy'n ymwneud â fframwaith Llais y Myfyrwyr trwy hyfforddiant i ddatblygu sgiliau cyfranogi mewn cyfarfodydd, crynhoi pwyntiau pobl eraill a rhannu profiadau a'r hyn sydd ar eu meddwl mewn modd adeiladol.

Mae cyfarfod Llais y Dysgwr a gynhelir bob tymor yn fodd i'r myfyrwyr rannu eu profiadau a'r hyn sydd ar eu meddwl ag uwch-arweinwyr y coleg, ac i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â phawb am y camau gweithredu sydd ar waith. Rhoddir adborth bob amser ar y camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i'r cyfarfodydd blaenorol a darperir rhesymau dros unrhyw gamau sydd heb eu cymryd eto. Rhennir adborth hefyd ar draws pob campws trwy rannu ffeithluniau 'Fe Ddywedsoch Chi ... Fe Wnaethon Ni' ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn mannau cymdeithasol.

Trwy'r fframwaith hwn, mae'r myfyrwyr wedi achosi newidiadau go iawn ar draws y coleg, gan gynnwys:

- Sicrhau bod cynhyrchion mislif sy'n gydnaws â'r amgylchedd ar gael i bawb y mae eu hangen arnynt, beth bynnag yw eu hunaniaeth rhywedd;
- Creu partneriaethau â sefydliadau allanol i gefnogi pobl ifanc;
- Dylanwadu ar gyflwyniad eu cwricwlwm ar-lein;
- Cyfrannu at wneud penderfyniadau mewn ymateb i'r pandemig.

# SUT GALL COMISIYNYDD PLANT CYMRU EICH CEFNOGI CHI?

**Mae datblygu dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant yn galw am arweiniad clir yn eich lleoliad ac ymrwymiad gan y tîm staff cyfan. Mae Comisiynydd Plant Cymru yma i gefnogi eich taith hawliau, a chewch wybod sut isod.**

## Rhaglenni Llysgenhadon

Mae rhaglenni Llysgenhadon y Comisiynydd Plant ar gyfer lleoliadau addysg a grwpiau cymunedol yn helpu eich lleoliad i hybu hawliau dynol plant a CCUHP. Mae'r rhaglen Llysgenhadon yn ddi-dâl ac yn cynnwys digwyddiadau blynyddol a phecyn o adnoddau hawliau hygyrch, dwyieithog, sydd ar gael am dim, gydag adnodd newydd ar bwnc hawliau yn cael ei ddarparu am ddim bob tymor. Mae'r rhaglenni llysgenhadon yn addas i bob math o leoliad addysg: maen nhw'n cynnwys adnoddau hygyrch, ac rydyn ni'n trefnu staff penodedig i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol mewn digwyddiadau. Cewch ragor o wybodaeth a chyfle i ymuno yma.

## Ymweliadau Cyfranogiad

Mae gan dîm cyfranogiad y Comisiynydd Plant raglen flynyddol o ymweliadau ar-lein ac all-lein â lleoliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ledled Cymru. Gall ymweliadau fod yn gyfle i staff a dysgwyr rannu eich gwaith ar hawliau plant, cael cyngor am ddatblygu eich dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, neu brofi gweithdai rhyngweithiol ar fater hawliau. Rydyn ni'n gwneud ein gorau i ymateb i geisiadau am ymweliadau, ac os na allwn ni ddod yn bersonol, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi am ffyrdd eraill o ymwneud â gwaith y Comisiynydd Plant. I wneud cais am ymweliad, cysylltwch â ni ar post@complantcymru.org.uk

## Ymchwiliadau a Chyngor

Mae ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor yn gyfrinachol ac ar gael am ddim. Ei ddiben yw cynghori a chefnogi plant a phobl ifanc neu'r rhai sy'n gofalu amdanynt neu'n gweithio gyda nhw, os byddan nhw'n teimlo bod plentyn wedi cael triniaeth annheg. Cewch ragor o wybodaeth neu gallwch gysylltu ag un o'n gweithwyr achosion cyfeillgar yma.

### Adnoddau

Mae gan y Comisiynydd Plant ystod helaeth o adnoddau dysgu ac addysgu dwyieithog, sydd ar gael am ddim, i leoliadau addysg. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau i leoliadau Blynyddoedd Cynnar, Cyfnod Sylfaen, Cynradd, Uwchradd ac AAA. Mae'r adnoddau dysgu yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP a hawliau plant, yn ogystal â chanolbwyntio ar amrywiaeth o faterion hawliau plant, gan gynnwys:

- Gwrthfwlio;
- Dathlu hunaniaeth;
- Tlodi plant;
- Herio adroddiadau negyddol yn y gymuned LHDT;
- Herio adroddiadau negyddol yn y cyfryngau o Sipsiwn a Theithwyr;
- Cynghorau Ysgol Effeithiol;
- Perthnasoedd Iach;
- Clybiau Pontio'r Cenedlaethau;
- Etholiadau cenedlaethol a lleol;
- Diogelwch ar-lein ac atal seiberfwlio;
- Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches;
- Taclo Islamoffobia;
- Gweithredu'n foesegol ac yn wybodus;
- Siopau cyfnewid gwisg ysgol;
- Her Gymunedol Bagloriaeth Cymru

## Paneli Ymgynghorol

Mae gan y Comisiynydd Plant Banel Ymgynghorol Pobl ifanc, sy'n cynnwys rhyw 40 o bobl ifanc o wahanol gefndiroedd ar draws Cymru. Bob blwyddyn rydyn ni'n recriwtio aelodau newydd i ymuno â'r panel gwych yma o bobl ifanc sy'n galw'r Comisiynydd i gyfrif ynghylch cyflawni ei chynlluniau gwaith tair blynedd a blynyddol. Cewch ragor o wybodaeth am y panel a sut gall pobl ifanc gyflwyno cais yma.

Mae gan y Comisiynydd hefyd Panel Ymgynghorol o oedolion, a Phwyllgor Archwilio a Risg. Cewch ragor o wybodaeth am y rhain, gan gynnwys cyfleoedd i ymwneud â nhw, yma.

## Datgelu Camarfer

Mae Gorchymyn Personau Rhagnodedig 2014 yn cyflwyno rhestr o fwy na 60 o sefydliadau ac unigolion y gall gweithiwr droi atynt y tu allan i'w gweithle i roi gwybod am gamarfer a amheuir neu sy'n hysbys. Mae Comisiynydd Plant Cymru yn un o'r sefydliadau a restrir. Cewch ragor o wybodaeth am sut gall y Comisiynydd Plant gefnogi datgelu camarfer yma.

[i] Cewch hyd i esboniad o'r Confensiynau ac egwyddorion y fframwaith hwn yng Nghod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 210326-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru-2021.pdf (llyw.cymru)

[ii] Cewch hyd i destun llawn Sylw Cyffredinol rhif 1 (2001) Erthygl 29 (1): Nodau Addysg yma. Mae'r fframwaith hwn hefyd yn cyd-fynd â Sylwadau Cyffredinol eraill perthnasol, gan gynnwys:

- CCUHPA Sylw Cyffredinol Rhif 4 (2016) ar yr hawl i addysg gynhwysol;
- CCUHP Sylw Cyffredinol Rhif 9 (2006) Hawliau plant ag anableddau;
- CCUHP Sylw Cyffredinol Rhif 5 (2003) – Mesurau gweithredu cyffredinol y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (Erthyglau 4, 42 a 44)

[iii] Cewch hyd i'r testunau hawliau dynol rhyngwladol creiddiol yma

[iv] Ni fwriadwyd i egwyddorion dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol i blant gael eu defnyddio mewn unrhyw drefn benodol. Yn hytrach, dylid meddwl amdanynt a'u defnyddio gyda'i gilydd i lywio penderfyniadau a chyflwyno gwasanaethau. Yn anochel bydd peth gorgyffwrdd. Er enghraifft, mae grymuso plant i wneud penderfyniadau a dewisiadau yn agos iawn at ddarparu cyfleoedd i blant fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, ac ni fydd cyfranogiad yn gwireddu hawliau plant ond os yw'n digwydd ar sail egwyddor peidio â chamwahaniaethu a chydraddoldeb. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion sy'n gorgyffwrdd yn ategu ei gilydd ac yn cyfrannu at ddull gweithredu cyfannol, cydlynus a chynhwysfawr o wireddu hawliau plant o dan ddau Gonfensiwn y CU.

[v] Mae esboniad ar gynhwysiad a pheidio â chamwahaniaethu yn CCUHPA, y seiliwyd y testun hwn arno, ar gael ym Mhecyn Hyfforddi cynhwysfawr OHCHR ar CCUHPA yma.

[vi] Cynulliad Cyffredinol y CU (2012) Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Addysg a Hyfforddiant Hawliau Dynol: Penderfyniad 66/137 a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cyffredinol ar 19 Rhagfyr 2011, ar gael yma.

## Cysylltu â ni

Bydden ni'n croesawu eich cwestiynau ynghylch sut gallwch chi ddatblygu dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant, a bydden ni wrth ein bodd yn clywed sut mae'r fframwaith yma'n gwneud gwahaniaeth yn eich lleoliad. Rhowch wybod i ni trwy ein tagio ar Twitter neu Facebook @complantcymru neu anfon e-bost aton ni i post@complantcymru.org.uk

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales